Atodiad A

**Safon Archwilio Ryngwladol (y DU ac Iwerddon) 240 - Cyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â thwyll mewn archwiliad o ddatganiadau ariannol**

**Cefndir**

O dan yr ISA, y rheolwyr a'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu', sef, yn achos y Cyngor, y Pwyllgor Archwilio, sy'n bennaf cyfrifol am atal a chanfod achosion o dwyll. Mae hyn yn cynnwys twyll a allai effeithio ar gywirdeb y cyfrifon blynyddol. Mae'r ISA yn ei gwneud yn ofynnol i ni, fel archwilwyr allanol, feithrin dealltwriaeth o'r modd y mae'r Pwyllgor yn goruchwylio prosesau'r rheolwyr ar gyfer nodi ac ymateb i'r risgiau o dwyll a'r rheolaethau mewnol a sefydlwyd i'w lliniaru.

Beth yw 'twyll' yng nghyd-destun yr ISA?

Ystyr twyll o dan yr ISA yw naill ai:
- achos bwriadol o gamddefnyddio asedau'r Cyngor (arian parod, eiddo, ac ati); neu
- achos bwriadol o gam-drin neu gamddatgan mewn perthynas â'r datganiadau ariannol.

**Beth sy'n ofynnol i ni ei wneud?**

Er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau'n briodol o dan ISA 240, mae'n rhaid i ni gasglu tystiolaeth o'r modd y mae'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn cyflawni eu cyfrifoldebau. Felly, rydym yn gofyn cwestiynau i reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio:

| **Ymholiadau i reolwyr** | |
|---|---|
| Cwestiwn | Ymateb |
| 1) Beth yw asesiad y rheolwyr o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan mewn ffordd berthnasol o ganlyniad i dwyll a beth yw'r prif resymau? | Ar ôl cymryd camau i reoli'r risgiau hyn gyda rheolaethau priodol ac wedi ystyried gweithrediadau Archwilio Mewnol, rydym yn credu bod y tebygolrwydd yn isel, fel y cofnodwyd yn ein cofrestr risg corfforaethol. |

| | |
|---|---|
| 2) Sut y gall y rheolwyr roi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio nad yw pwysau allanol wedi dylanwadu arnynt? | Mae polisïau a threfniadau mewn lle ar gyfer datganiadau priodol, ayb. |
| 3) A yw'r rheolwyr yn ymwybodol o unrhyw bwysau sefydliadol i fodloni cyllidebau refeniw a chyfalaf neu gyfyngiadau ariannol eraill? | Gall y cwestiwn yma fod yn fwy priodol i gyrff ar wahân i Lywodraeth Leol. Fodd bynnag, mae gweithdrefnau priodol yn eu lle i weithredu o fewn fframweithiau a chyfyngiadau cyllidebol. |
| 4) Pa brosesau a ddefnyddir i nodi ac ymateb i'r risgiau o dwyll yn fwy cyffredinol a risgiau penodol o gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol? | Mae rheolwyr ac Archwilio Mewnol yn rheoli gyda dull sy'n seiliedig ar risg. Hefyd, mae Cyllid yn ymchwilio amrywiadau sylweddol. |
| 5) Sut a phryd y mae'r rheolwyr wedi cyfleu disgwyliadau mewn perthynas â llywodraethu moesegol a safonau ymddygiad i'r holl bartïon perthnasol? | Mae Cyfansoddiad y Cyngor, gan gynnwys polisïau a threfniadau perthnasol, yn cael ei gyfathrebu drwy'r fewnrwyd, ac mae'r rhain hefyd yn cael eu cynnwys o fewn hyfforddiant anwytho staff, a hyfforddiant aelodau. |
| 6) Pa drefniadau sydd ar waith i roi gwybod am dwyll i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu? | Mae adroddiad rheolaidd y Pennaeth Archwilio Mewnol i bob Pwyllgor Archwilio yn cynnwys rhan sydd yn adrodd am dwyll fel yn briodol, a lle mae'r broses gyfreithiol briodol yn caniatáu adrodd o'r fath. Hefyd, bydd gweithgor o Gynghorwyr o'r Pwyllgor Archwilio yn craffu materion sensitif mewn mwy o ddyfnder. |

| Ymholiadau i’r Pwyllgor Archwilio | |
|---|---|
| 1) Sut mae’r Pwyllgor Archwilio, fel y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu, yn goruchwylio prosesau’r rheolwyr ar gyfer nodi ac ymateb i’r risgiau o dwyll o fewn y Cyngor a’r rheolaethau mewnol y mae’r rheolwyr wedi’u sefydlu er mwyn lliniaru’r risgiau hynny? | Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo’r datganiadau ariannol blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sy'n cwmpasu risgiau o dwyll a’r rheolaethau mewnol a sefydlwyd. Hefyd, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio y Strategaeth Gwrth-Dwyll, Gwrth-lygredd a Gwrth-Lwgrwobrwyo (yn cynnwys y Cynllun Ymateb i Dwyll). Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn goruchwylio diwygiadau i rannau perthnasol o Gyfansoddiad y Cyngor. |
| 2) A yw’r Pwyllgor Archwilio yn ymwybodol o unrhyw achosion gwirioneddol, a amheuir neu honedig o dwyll ers 1 Ebrill 2014? | Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adroddiadau gan Archwilio Mewnol am dwyll, fel yn briodol, a lle mae’r broses gyfreithiol briodol yn caniatáu adrodd o'r fath. Ni dderbyniwyd unrhyw adroddiadau ynglŷn ag unrhyw achosion o dwyll o'r fath a thraddodwyd ers 1 Ebrill 2014. |
| 3) A oes gan y Pwyllgor Archwilio unrhyw ddrwgdybiaeth y gall fod achosion o dwyll o fewn y sefydliad? | Y trefniant a gytunwyd yw i aelodau'r Pwyllgor Archwilio godi amheuon o'r fath gyda’r swyddogion priodol yn yr Adran Gyllid. Nid yw'r aelodau wedi mynegi unrhyw amheuon o'r fath. |
| 4) A yw’r Pwyllgor Archwilio yn fodlon bod rheolaethau mewnol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, yn bodoli ac yn gweithio’n effeithiol? Os ydyw, rhowch fanylion. Os nad ydyw, beth yw’r meysydd risg? | Lle nad yw’r Pwyllgor Archwilio yn fodlon bod rheolaethau mewnol yn cael eu gweithredu'n effeithiol, mae materion o'r fath yn cael eu cyfeirio at Weithgor y Pwyllgor. Gweler adroddiadau perthnasol y Gweithgor i'r Pwyllgor Archwilio am fanylion. |
| 5) Sut rydych yn annog staff i godi eu pryderon am dwyll a pha bryderon am dwyll y disgwylir i staff eu codi? | Mae ymwybyddiaeth o Bolisi “Canu’r Gloch” y Cyngor yn cael ei godi gan gardiau cyswllt, manylion ar y fewnrwyd ac yn yr hyfforddiant anwytho. |

| | |
|---|---|
| 6) O safbwynt twyll a llygredd, beth yw'r swyddi a ystyrir yn rhai risg uchel o fewn y sefydliad ym marn y Pwyllgor Archwilio a sut y caiff y risgiau sy'n ymwneud â'r swyddi hyn eu nodi, eu hasesu a'u rheoli? | Mae rheolaethau (megis gwahanu dyletswyddau) yn cael eu sefydlu i leihau risgiau sy'n ymwneud â swyddi unigol, ac asiantau (megis rheolwyr asedau'r Gronfa Bensiwn), a pholisïau yswiriant priodol (gwarant ffydd) yn eu lle ar gyfer swyddi perthnasol. |
| 7) A yw'r Pwyllgor Archwilio yn ymwybodol o unrhyw gydberthnasau neu drafodion partïon cysylltiedig a allai arwain at achosion o dwyll a sut mae'r Pwyllgor Archwilio yn lliniaru'r risgiau mewn perthynas â thwyll sy'n gysylltiedig â chydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig. | Nid yw manylion partïon cysylltiedig penodol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio, ond mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod yr Adran Gyllid yn cymryd camau priodol i adnabod risgiau o'r fath ac mae cyfansymiau trafodion yn cael eu hadrodd yn y datganiadau ariannol statudol. |
| 8) A yw'r Pwyllgor Archwilio yn ymwybodol o unrhyw gofnod a wnaed yng nghofnodion cyfrifyddu'r sefydliad y mae o'r farn neu'n amau ei fod yn anwir neu'n fwriadol gamarweiniol? | Na |
| 9) A yw'r Pwyllgor Archwilio yn ymwybodol o unrhyw bwysau sefydliadol neu bwysau ar reolwyr i fodloni cyllidebau refeniw a chyfalaf neu gyfyngiadau ariannol eraill? | Mae'r Pwyllgor Archwilio yn ymwybodol bod gweithdrefnau priodol mewn lle i weithredu o fewn fframweithiau a chyfyngiadau cyllidebol. |

**Safon Archwilio Ryngwladol (y DU ac Iwerddon) 250 - Ystyriaeth o ddeddfau a rheoliadau mewn archwiliad o ddatganiadau ariannol**
**Cefndir**

O dan yr ISA, yn y DU ac Iwerddon, y rheolwyr a'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu', sef, yn achos y Cyngor, y Pwyllgor Archwilio, sy'n bennaf cyfrifol am sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â deddfau a rheoliadau ac yn gyfrifol am atal a chanfod achosion o ddiffyg cydymffurfio. Mae'r ISA yn ei gwneud yn ofynnol i ni, fel archwilwyr allanol, feithrin dealltwriaeth o'r modd y mae'r Pwyllgor yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfau a rheoliadau.

**Beth sy'n ofynnol i ni ei wneud?**

Er mwyn cyflawni ein cyfrifoldebau'n briodol o dan ISA 250, mae'n rhaid i ni gasglu tystiolaeth o'r modd y mae'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn cyflawni eu cyfrifoldebau. Felly, rydym yn gofyn cwestiynau i reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio:

| **Ymholiadau i reolwyr** | |
|---|---|
| Cwestiwn | Ymateb |
| 1) Sut rydych wedi sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol? | Mae'r Cyngor yn cyflogi swyddogion proffesiynol priodol ar gyfer pob maes gweithredol perthnasol, sy'n cael eu herio fel yn briodol drwy arweinyddiaeth ac adolygiadau annibynnol. |
| 2) A oes unrhyw ymgyfreitha neu hawliadau posibl a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol? | Gall ymgyfreitha posibl gael ei ddilyn, megis hawliadau cyflog cyfartal, ond ym mhob achos sy'n hysbys, mae darpariaethau priodol neu cronfeydd wedi'u gwneud, neu lle'n briodol, mae rhwymedigaethau amodol wedi'u cydnabod yn unol â hynny. |
| **Ymholiadau i'r Pwyllgor Archwilio** | |
| 1) Sut mae'r Pwyllgor Archwilio, fel y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn goruchwylio prosesau'r rheolwyr ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol? | Mae'r Pwyllgor Archwilio yn herio a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, gan osod prosesau rheoli perthnasol, ac yna yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan Archwilio Mewnol, yn cynnwys unrhyw ddiffyg cydymffurfio difrifol. |

| | |
|---|---|
| 2) A yw'r Pwyllgor Archwilio yn ymwybodol o unrhyw ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau perthnasol? | Na, nid yw'r Pwyllgor Archwilio yn ymwybodol o unrhyw ddiffyg cydymffurfio difrifol. |
| 3) Os bu achosion o ddiffyg cydymffurfio, beth ydynt, a pha gamau goruchwylio a gymerwyd gan y Pwyllgor Archwilio er mwyn sicrhau bod y rheolwyr wedi cymryd camau i fynd i'r afael â bylchau mewn rheolaeth? | d/b |

**Safon Archwilio Ryngwladol (y DU ac Iwerddon) 550 - Partïon cysylltiedig**

**Cefndir**

Gall natur cydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig, o dan rai amgylchiadau, arwain at risgiau uwch o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol na thrafodion â phartïon digyswllt. Er enghraifft:

- Gall partïon cysylltiedig weithredu drwy amrywiaeth helaeth a chymhleth o gydberthnasau a strwythurau, gyda chynnydd cyfatebol yng nghymhlethdod trafodion partïon cysylltiedig.
- Gall systemau gwybodaeth fod yn aneffeithiol o ran nodi neu grynhoi trafodion a balansau sy'n weddill rhwng endid a'i bartïon cysylltiedig.
- Efallai na chaiff trafodion â phartïon cysylltiedig eu cynnal o dan delerau ac amodau arferol y farchnad: er enghraifft, efallai y caiff rhai trafodion â phartïon cysylltiedig eu cynnal heb gyfnewid cydnabyddiaeth.

Am nad yw partïon cysylltiedig yn annibynnol ar ei gilydd, mae llawer o fframweithiau adrodd ariannol yn pennu gofynion cyfrifyddu a datgelu penodol ar gyfer cydberthnasau, trafodion a balansau partïon cysylltiedig er mwyn galluogi defnyddwyr y datganiadau ariannol i ddeall eu natur a'u heffeithiau gwirioneddol neu bosibl ar y datganiadau ariannol. Yn unol ag ISA (y DU ac Iwerddon) 240, mae dealltwriaeth o gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig yr endid yn berthnasol i werthusiad yr archwilydd ynghylch a oes unrhyw ffactorau risg yn bresennol, oherwydd gellir cyflawni twyll yn haws drwy bartïon cysylltiedig.

**Beth sy'n ofynnol i ni ei wneud?**

Os yw'r fframwaith adrodd ariannol cymwys yn pennu gofynion ar gyfer partïon cysylltiedig, mae'r archwilydd yn gyfrifol am ymgymryd â gweithdrefnau archwilio er mwyn nodi, asesu ac ymateb i'r risgiau o gamddatganiadau perthnasol sy'n deillio o fethiant yr endid i roi cyfrif priodol am gydberthnasau, trafodion neu falansau partïon cysylltiedig, neu eu datgelu, yn unol â gofynion y fframwaith. Felly, rydym yn gofyn cwestiynau i reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio:

| **Ymholiadau i reolwyr** | |
|---|---|
| Cwestiwn | Ymateb |
| 1) Pa reolaethau sydd ar waith i nodi, awdurdodi, cymeradwyo, datgelu a rhoi cyfrif am drafodion a chydberthnasau a phartïon cysylltiedig. | Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y Cod, gan gasglu datganiadau priodol gan aelodau etholedig a phrif swyddogion, ac mae cyfansymiau trafodion yn cael eu hadrodd yn y datganiadau ariannol statudol. |
| 2) Cadarnhewch eich bod:<br>• wedi datgelu i'r archwilydd fanylion partïon cysylltiedig yr endid ynghyd â'r holl gydberthnasau a thrafodion â phartïon cysylltiedig rydych yn ymwybodol ohonynt; ac<br>• wedi datgelu ac wedi rhoi cyfrif priodol am gydberthnasau a thrafodion o'r fath yn unol â gofynion y fframwaith. | Oes, mae datgeliadau manwl yn cael eu cyflenwi i archwilwyr allanol y Cyngor. |
| **Ymholiadau i'r Pwyllgor Archwlio** | |
| 1) Sut mae'r Pwyllgor Archwlio, fel y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn goruchwylio prosesau'r rheolwyr ar gyfer nodi, awdurdodi, cymeradwyo, datgelu a rhoi cyfrif am drafodion a chydberthnasau â phartïon cysylltiedig. | Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn y cyfrifon drafft (yn amodol ar archwiliad) ac yna yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol terfynol sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol am drafodion a chydberthnasau â phartïon cysylltiedig. |